Mehefin 2017

June 2017

# Cyngor Sir Ddinbych
# Denbighshire County Council

## Adroddiad Gwella Blynyddol
## Annual Improvement Report

Gwilym Bury

# Cyfranwyr Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Contributors

- *Y Cyngor – Adroddiad Perfformiad 2015-16.*
- *Swyddfa Archwilio Cymru – hunanasesiad y Cyngor a gwaith maes gan SAC.*
- *AGGCC – gofal cymdeithasol.*

- Council – 2015-16 Performance Report.
- WAO – Council's self-evaluation + fieldwork undertaken by WAO
- CSSIW - social care.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# CASGLIAD CYFFREDINOL
# OVERALL CONCLUSION

- *Mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus*
- *O ganlyniad i gynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth bresennol, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun wedi'i ddiweddaru er mwyn disgrifio'i weledigaeth a'i brif uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, a sut y bydd yn gweithredu fel sefydliad*

- The Council continues to meet its statutory requirements in relation to continuous improvement
- Having made significant progress in delivering its current vision, the Council is developing an updated plan to describe its vision and key ambitions for the future and how it will operate as an organisation

# CASGLIAD CYFFREDINOL
# OVERALL CONCLUSION

- *Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond nid yw'r gwerthusiad o effaith newidiadau i wasanaethau bob amser yn amserol*
- *Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor*

- The Council has a clear framework and sound governance arrangements for significant service changes but evaluating the impact of service change is not always timely
- In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **O ganlyniad i gynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth bresennol, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun wedi'i ddiweddaru er mwyn disgrifio'i weledigaeth a'i brif uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, a sut y bydd yn gweithredu fel sefydliad**
- Gydag arweinyddiaeth dda mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth bresennol
- Mae'r Cyngor yn dangos dealltwriaeth glir o'i atebolrwydd i randdeiliaid ac yn gyffredinol mae ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ynglŷn â materion strategol allweddol yn effeithiol

- **Having made significant progress in delivering its current vision, the Council is developing an updated plan to describe its vision and key ambitions for the future and how it will operate as an organisation**
- With good leadership the Council is making significant progress in delivering its current vision
- The Council demonstrates a clear understanding of its accountabilities to stakeholders and is generally effective at engaging with internal and external stakeholders about key strategic issues.

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond nid yw’r gwerthusiad o effaith newidiadau i wasanaethau bob amser yn amserol**
- Mae gweledigaeth a strategaeth y Cyngor yn rhoi fframwaith clir ar gyfer llunio a gweithredu newidiadau sylweddol i wasanaethau
- Mae’r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu ar gyfer y cynghorwyr a’r swyddogion wrth iddynt ystyried newidiadau sylweddol i wasanaethau yn glir ac yn cael eu deall yn drwyadl

- **The Council has a clear framework and sound governance arrangements for significant service changes but evaluating the impact of service change is not always timely**
- The Council’s vision and strategy provides a clear framework to shape and drive significant service changes
- Accountability and governance arrangements for councillors and officers considering significant service changes are clear and well understood

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond nid yw'r gwerthusiad o effaith newidiadau i wasanaethau bob amser yn amserol**
- Mae cynghorwyr yn herio'n gadarn opsiynau newydd a chynigion o ran cyflenwi gwasanaethau
- Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol gyda rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac mae wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad er mwyn adlewyrchu amrywiaeth Sir Ddinbych yn well

- **The Council has a clear framework and sound governance arrangements for significant service changes but evaluating the impact of service change is not always timely**
- The challenge by councillors of new service delivery options and proposals is robust
- The Council actively engages with stakeholders to inform decision-making and is committed to widening involvement to better reflect the diversity of Denbighshire

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad Performance Assessment Findings

- **Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond nid yw'r gwerthusiad o effaith newidiadau i wasanaethau bob amser yn amserol**
- Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad gwasanaethau ac yn gwerthuso effaith newidiadau unigol i wasanaethau, er ar adegau nad yw bob amser yn amserol
- Mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran adolygu a gwella effeithiolrwydd trefniadau gwneud penderfyniadau

- **The Council has a clear framework and sound governance arrangements for significant service changes but evaluating the impact of service change is not always timely**
- The Council monitors service performance and evaluates the impact of individual service change, although at times this is not always timely
- The Council proactively reviews and improves the effectiveness of its decision-making arrangements

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor**


- Mae gan y Cyngor ddull effeithiol, a ystyriwyd yn drwyadl, o gynllunio arbedion sy'n hybu gwytnwch ariannol ar gyfer y dyfodol


- **In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals**

- The Council has an effective and well-considered savings planning approach, which is supporting future financial resilience

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad Performance Assessment Findings

- Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17
- Welsh Government support in 2016-17



# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor**
- Nododd y Cyngor ei fod wedi cyflawni 91% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015 - 16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi'u cyflawni
- Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol effeithiol ond mae angen iddo ddatblygu dull corfforaethol o gynhyrchu incwm

- **In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals**
- The Council has reported achievement of 91% of its planned 2015-16 savings in year and can demonstrate that individual savings have been delivered
- The Council has an effective financial planning framework but it still needs to develop a corporate approach to income generation

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor**
- Mae'r Cyngor yn rhagweld ei fod yn debygol o gyflawni 70% o'r arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2016 - 17 yn ystod y flwyddyn ac mae trefniadau monitro priodol yn eu lle; mae cynigion arbedion wrth gefn wedi eu paratoi petai angen amdanynt

- **In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals**
- The Council forecasts that it is likely to achieve 70% of its 2016-17 savings targets in year and appropriate monitoring arrangements are in place, contingency savings proposals are prepared should they be required

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor**
- Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei ddull o reoli a defnyddio'i weithlu drwy fod ag ymagwedd effeithiol tuag at gynllunio gweithlu a datblygu arweinyddiaeth, a gefnogir gan bolisïau a chanllawiau clir

- **In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals**
- The Council continues to strengthen its approach to managing and utilising its workforce by having an effective approach to workforce planning and leadership development, supported by clear policies and guidance

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor**
- Mae trefniadau gweithredol rheoli asedau'n ddigonol, ond nid yw'r ymagwedd strategol tuag at reoli asedau yn gadarn eto

- **In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals**
- Operational asset management arrangements are adequate, but the strategic approach to asset management is not yet robust

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor**
- Mae staff yn derbyn cefnogaeth TGCh effeithiol, ond mae potensial pellach i hyrwyddo defnydd ehangach o dechnoleg er mwyn creu arbedion effeithlonrwydd ar draws y Cyngor

- **In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals**
- Staff receive effective ICT support, but there is further potential to promote the wider exploitation of technology to create efficiencies across the Council

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Performance Assessment Findings

- **Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor**
- Mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o reoli gwybodaeth, gyda rhai mentrau da ar y gweill, ac mae cyfleoedd i ddatblygu strategaeth wybodaeth fwy cadarn ac integredig

- **In general the Council manages its resources well, but a lack of coordination between other corporate strategies may limit the contribution individual services can make towards the Council's goals**
- The Council is developing its approach to information management, with some good initiatives underway, and opportunities exist to develop a more robust and integrated information strategy

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad Other audit, regulatory and inspection work

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16:**
- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau ynglŷn â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau:
- Nid oes tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau wedi'i chyflwyno eto:
- Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- Hyd yn hyn nid yw'r gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion.

- **WAO Annual audit letter 2015-16:**
- The Council complied with its responsibilities relating to financial reporting and use of resources;
- A certificate confirming that the audit of the accounts has been completed has not yet been issued;
- The Council has appropriate arrangements in place to secure economy, efficiency and effectiveness in its use of resources;
- Work to date on certification of grant claims and returns has not identified significant issues

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Other audit, regulatory and inspection work

- **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**
- Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei amcanion gwella.Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella

- **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**
- Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol i adrodd ar welliant.

- **Wales Audit Office annual improvement plan audit**
- Review of the Council's published plans for delivering on improvement objectives. The Council has complied with its statutory improvement planning duties.

- **Wales Audit Office annual assessment of performance audit**

- Review of the Council's published performance assessment. The Council has complied with its statutory improvement reporting duties.

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Other audit, regulatory and inspection work

- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**
- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru - Cyngor Sir Ddinbych **Dadansoddiad**
- Nid yw'r awdurdod lleol wedi datblygu ei wybodaeth am y farchnad yn ddigonol, ac o ganlyniad, mae wedi paratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad nad yw'n galluogi darparwyr i gynllunio eu rôl a'u swyddogaeth yn y dyfodol.

- **Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW)**
- National review of domiciliary care in Wales – Denbighshire County Council **Analysis**
- The local authority has not sufficiently developed its market intelligence and, as a consequence, has produced a market position statement that does enable providers to plan their future role and function.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Other audit, regulatory and inspection work

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru - Cyngor Sir Ddinbych **Dadansoddiad**

- O ganlyniad mae darparwyr yn ansicr ynglŷn â’r ffordd mae pethau’n mynd, galw yn y dyfodol, adnoddau ar gyfer y dyfodol a sut y bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi’r rhai sydd angen gofal a chymorth yn eu cartref.

- National review of domiciliary care in Wales – Denbighshire County Council **Analysis**

- As a consequence, providers are unsure of the direction of travel, future demand, future resourcing and how the local authority will continue support those in need of care and support at home..

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Other audit, regulatory and inspection work

- Mae'r trefniadau ar gyfer comisiynu gofal cartref yn wan, gyda'r risg gyfatebol na fydd modd cynnal y model caffael cyfredol. Mae diwylliant wedi datblygu sy'n annog y cynnig isaf yn erbyn ffioedd dynodol, ac mae hyn wedi arwain at gontractau'n cael eu dyfarnu yn bennaf ar sail cost. Mae darparwyr wedi gwneud cynigion cynyddol is er mwyn sicrhau contractau, ac mae hyn wedi lleihau gwariant awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod ar draul sefydlogrwydd y farchnad, sydd fwyaf amlwg yn yr anawsterau wrth recriwtio a chadw staff sy'n dod i'r amlwg, mewn sector sydd eisoes yn wynebu heriau sylweddol wrth wneud maes gofal yn broffesiwn mwy deniadol.

- The arrangements for domiciliary care commissioning are weak, with a corresponding risk that the current model of procurement is becoming unsustainable. A culture has developed that encourages the lowest bid against indicative fees and this has resulted in contracts being awarded primarily on price. Providers have increasingly bid lower to secure contacts and this has reduced local authority expenditure. However, this has been at the expense of market stability most evident in the emergence of increasing recruitment and retention difficulties in a sector that already faces significant challenges in making care attractive

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Other audit, regulatory and inspection work

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru - Cyngor Sir Ddinbych **Dadansoddiad**
- O’r herwydd, mae perthynas fregus âdarparwyr wedi datblygu, gyda rhai wrthi’n ystyried strategaeth ar gyfer gadael y farchnad.
- Mae risgiau sylweddol i gynaliadwyedd y farchnad gofal cartref leol, ac mae hyn yn cael effaith ar bobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau ar hyn o bryd, sy’n derbyn gwasanaeth cynyddol wael.

- National review of domiciliary care in Wales – Denbighshire County Council **Analysis**
- A fragile relationship with providers has therefore developed with some actively considering market exit strategies.
- There are considerable risks to the sustainability of the local domiciliary care market and this is having an impact upon people who currently use services, who are increasingly not being well served.

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Other audit, regulatory and inspection work

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru - Cyngor Sir Ddinbych **Dadansoddiad**
- Mae gormod o ymweliadau 15 munud yn cael eu comisiynu gan yr awdurdod lleol, ac mae hyn yn gyrru disgwyliadau afrealistig i staff darparwyr roi cymorth i bobl o fewn amserlen nad yw'n rhoi nac urddas na pharch.
- Nododd yr adroddiad wyth o feysydd i'w hystyried

- National review of domiciliary care in Wales – Denbighshire County Council **Analysis**
- Too many visits of 15 minutes' duration are being commissioned by the local authority and this is driving unrealistic and unreasonable expectations of provider staff to support people in timeframes that afford neither dignity nor respect.
- The report identified eight areas for consideration

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Proposals for improvement

- **SAC**
- C1 Cryfhau trefniadau llywodraethu drwy fonitro effaith pob newid sylweddol i wasanaeth yn gyson ac yn amserol.
- C2 Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy:
- ddatblygu Polisi Codi Tâl/Cynhyrchu Incwm; a
- graddoli risg yr arbedion yn ffurfiol yn unol â pha mor gyraeddadwy ydynt a nodi camau lliniaru cynaliadwy ar gyfer y rhai a ddosbarthwyd fel arbedion risg uchel.

- **WAO**
- P1 Strengthen governance arrangements by consistent, timely monitoring of the impact of each significant service change.
- P2 Strengthen financial planning arrangements by:
- developing an Income Generation/Charging Policy; and
- formally risk rating savings according to achievability and identify sustainable mitigating actions for those classified as high risk.

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Proposals for improvement

- C3 Cryfhau trefniadau rheoli pobl drwy:
- ddatblygu dull o sicrhau y gall cyflogeion, sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim o gwbl i'r fewnrwyd, gael gafael ar wybodaeth adnoddau dynol perthnasol; a
- sicrhau bod amrywiadau ac anghysondeb o ran cymhwyso polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hosgoi ar gyfer gweithwyr rheng flaen nad ydynt yn gweithio o swyddfa.

- C4 Cryfhau trefniadau rheoli asedau drwy sicrhau bod y camau gweithredu sydd eisoes ar y gweill i foderneiddio trefniadau rheoli asedau corfforaethol yn hyrwyddo defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o bortffolio tir ac eiddo'r Cyngor ac yn atgyfnerthu ei gyfraniad fel adnodd strategol.

- P3 Strengthen people management arrangements by:
- developing an approach to ensure that employees with limited or no access to the intranet can access relevant HR information; and
- ensuring that variations and inconsistency of application of HR policies are avoided for front-line non-office-based employees.

- P4 Strengthen asset management arrangements by ensuring that actions already underway to modernise corporate asset management arrangements promote more efficient and effective use of the Council's land and property portfolio and reinforce its contribution as a strategic resource.

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Proposals for improvement

- C5 Cryfhau trefniadau TGCh drwy:

  • sicrhau bod y Cyngor yn ymgynghori â'i wasanaeth TGCh ynglŷn â phob pryniant technoleg boed yn bryniant strategol neu arferol; a

  • sicrhau bod arbenigedd TGCh digonol yn cael ei gynnwys mewn caffaeliadau a gweithrediadau mwy neu risg uwch.

- P5 Strengthen ICT arrangements by:

  • ensuring the Council consults its ICT service over all technology purchases for both strategic and routine purchases; and

  • ensuring adequate ICT expertise are included in larger-scale or higher-risk procurements and implementations.

# Canfyddiadau Asesiad Perfformiad
# Proposals for improvement

- C6 Cryfhau trefniadau rheoli gwybodaeth drwy:
- sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn bodloni gofynion y safonau rhyngwladol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan y Cyngor;
- ymestyn cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth i gynnwys anghenion gwybodaeth y busnes yn ogystal â'r gofynion er mwyn cydymffurfio;
- datblygu Strategaeth Wybodaeth, yn gysylltiedig â strategaethau adnoddau eraill, er mwyn llunio'r defnydd o wybodaeth a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch pa bryd a lle bynnag mae ei angen; a
- datblygu cynlluniau gweithredu tymor hwy ar gyfer y System Rheoli Cofnodion a Dogfennau Electronig er mwyn symud y Cyngor tuag at ei nod o amgylchedd swyddfa di-bapur.

- P6 Strengthen information management arrangements by:
- ensuring Information Governance arrangements meet the requirements of international standards and include representation from across the whole of the Council;
- extending the terms of reference of the Information Governance Group to cover business information needs as well as the requirements for compliance;
- developing an Information Strategy, linked to other resource strategies, to shape information use and ensure information is accessible when and where it is needed; and
- developing longer-term implementation plans for the Electronic Document and Records Management System to move the Council towards its goal of a paperless office environment.

# Unrhyw gwestiynau?
# Any questions?

?